**Joseff o Arimathea**
**Marc 15:42–47; Luc 23:50–56; Mathew 27:57–66; Ioan 19:38–42**

Y mae swyn anghyffredin yn perthyn i Joseff o Arimathea. Ym mhob un o'r pedair efengyl fe sonnir am Joseff fel y gŵr a fu'n gyfrifol am osod corff Iesu mewn ogof-fedd. Caniateid i ffrindiau neu gydnabod gan Rufeiniaid i gyflawni gweithred garedig fel hon. Iddew defosiynol oedd Joseff, yn gwybod y Gyfraith Iddewig, ac yn sylweddoli yn dda na ellid gadael corff dros y Sabath. Ar ôl iddo gael y caniatâd, gosododd Iesu mewn lliain main a'i roi mewn bedd a luniwyd o'r graig gan osod carreg ar draws i amddiffyn y corff rhag lladron ac anifeiliaid rheibus.

Beth yw cefndir y gŵr haelionus a meddylgar a elwid yn Joseff? Deuai yn y lle cyntaf o Arimathea, ger Lydda, yng ngogledd Jwdea, gelwir ef yn yr Hen Destament yn Ramathaim. Disgrifia Marc ef fel aelod o'r Sanhedrin a disgybl cuddiedig, o leiaf yn disgwyl dyfodiad Teyrnas Dduw. Aiff Mathew ymhellach a dweud fod Joseff yn ddisgybl cuddiedig i Iesu, ac mai ef oedd berchen y bedd y gosodwyd Iesu i orwedd ynddo. Y mae Ioan ar yr un trywydd: disgybl cuddiedig rhag ofn yr Iddewon yw Joseff ganddo, gyda chefnogydd da yn Nicodemus. Roedd y bedd newydd, nad oedd wedi ei ddefnyddio cyn hynny, mewn gardd yn agos i Galfaria fryn. Joseff a Nicodemus oedd yn bennaf gyfrifol am eneinio'r corff a'i osod mewn lliain. Ac ni wyddai'r gwragedd eu bod wedi cyflawni'r ddefod. Dyna'r prif reswm iddynt hwy ddod ar fore'r trydydd dydd i eneinio'r corff, gan na chawsant ddigon o amser bnawn Gwener cyn i'r haul fachlud ac i'r Sabath gychwyn. Mae'n amlwg nad oedd Paul, y Cenhadwr, yn gyfarwydd â'r cefndir y sonnir amdano. Yn ei adroddiad ef (1 Corinthiaid 15:4) a'i araith yn Antioch Pisidia dywedodd fod yr Iddewon wedi tynnu corff Iesu oddi ar y Groes a'i osod yn y bedd (Actau 13:29). Y mae dweud hynny yn ategu'r hanes a gawn yn yr efengylau. Ond yn ddiddorol iawn ni cheir cyfeiriad o gwbl i'r gŵr ymarferol o Arimathea ddod yn aelod o eglwys Jerwsalem o dan arweiniad Iago. Pam hynny tybed?

***D. Ben Rees***